Newydd

Y Safon Gwasanaeth Blaenoriaethau Atgyweirio

Rydym wedi gosod targedau am yr uchafswm amser y dylech orfod aros am waith atgyweirio

Atgyweiriadau argyfwng

Amser ymateb targed: **o fewn 24 awr**

Atgyweiriadau argyfwng yw'r rhai sydd eu hangen i osgoi perygl difrifol i iechyd neu ddiogelwch neu ddifrod helaeth i adeiladau ac eiddo.

Mae'r math o atgyweiriadau y dylid eu hadrodd fel argyfwng yn cynnwys:

- Peipen wedi byrstio na fedrwch ei stopio drwy droi'r tap cau i ffwrdd
- Colli'r trydan yn gyfangwbl neu nam sylweddol ar y cyflenwad
- Draen allanol wedi blocio
- Toiled wedi blocio os mai dim ond un toiled sydd gennych yn eich cartref
- Colli'r cyflenwad dŵr yn gyfangwbl
- Llifogydd yn eich cartref
- Difrod strwythurol sylweddol
- Problem diogelwch gyda'ch drysau neu ffenestri allanol
- Colli'r cyflewad dŵr poeth neu wres yn gyfangwbl i denantiaid oedrannus/bregus neu yn ystod y cyfnod 1 Tachwedd - 31 Mawrth
- Lifft wedi torri
- Methiant y system larwm/galw warden
- Nam ar y system mynediad drws cymunedol os yw'r drws wedi'i gloi
- Difrod tân, i wneud yn ddiogel
- Gwaith iechyd a diogelwch

- Ffliw wedi blocio
- Colli'r cyflenwad nwy yn gyfangwbl
- Nwy yn gollwng – rhowch wybod i Transco ar 0800 111 99 ar unwaith

Peidiwch hysbysu Newydd am atgyweirio argyfwng ar Housecall ar ein gwefan

Atgyweiriadau brys

Amser ymateb targed: **7 diwrnod calendr**

Mae'r rhain yn atgyweiriadau a all effeithio ar gysur tenantiaid a medrant achosi difrod i'r eiddo os cânt eu gadael yn rhy hir. Er efallai nad ydynt yn argyfwng, mae angen delio gyda hwy'n gyflym.

Y math o atgyweiriadau y dylid ein hysbysu amdanynt fel rhai brys yw:

- Nam ar osodiadau trydanol a mân namau trydanol
- Namau ar ddŵr poeth neu wresogi/torri
- Colli dŵr poeth yn gyfangwbl yn ystod y cyfnod 1 Ebrill – 31 Hydref
- To yn gollwng, llechi ar goll a gwteri diffygiol/blocio yn achosi problem ddifrifol gyda dŵr yn dod i mewn
- Sistern neu bibell orlif ddiffygiol
- Methiant y ffôn mynediad
- Nam ar y system mynediad drws cymunol ac yn cadw ar agor
- Nam ar y ffan alldynnu
- Nam ar yr erial deledu gymunol
- Lleithder difrifol
- Problem diogelwch gyda drysau a ffenestri mewnol
- Handlen ffenestr wedi torri os yn broblem diogelwch eiddo neu iechyd a diogelwch
- Difrod i ris ar y grisiau neu ganllaw/banister
- Nam ar y gorchudd llawr sy'n broblem iechyd a diogelwch

Atgyweiriadau arferol

Amser ymateb targed: **28 diwrnod calendr**

Mae'r rhain yn atgyweiriadau heb fod yn frys, er y medrant fod yn anghyfleus.

Enghreifftiau o'r mathau hyn o waith yw:

- Gwaith trwsio i waliau allanol, llwybrau a ffensys
- Gwaith trwsio plastro
- Gwaith trwsio i ffenestri a handlenni ffenestri nad ydynt yn fater iechyd a diogelwch
- Gwaith trwsio teils wal (cegin/ystafell ymolchi)
- Gwaith trwsio a glanhau gwteri a phibelli lawr
- Mân waith trwsio plymio a gwaith trwsio ac adnewyddu dydd i ddydd
- Gwaith trwsio i ddrysau, lloriau mewnol
- Gwaith trwsio i gegin
- Tapiau neu unedau cawod yn gollwng
- Gwaith trwsio i orchudd llawr nad yw'n fater iechyd a diogelwch